CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
08.09.2026
AM 7.00 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, E L Shui-Nicholson, H N Evans, G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Dim.	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Clerc (oherwydd bod gan y Cadeirydd broblemau sain IT) . Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14.07.26 fel cofnodion cywir.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Maes Chwarae CCTV** – Nid yw'r Clerc wedi clywed dim pellach ynglŷn â hyn. Cynigiodd y Cynghorydd H N Evans fwrw ymlaen â'r mater gyda Chyngor y Sir.
4.2	**Terfyn cyflymder Engedi** – Nid yw'r Cyngor Sir wedi derbyn canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru eto.
4.3	**Wal y Fynwent** - Mae'r Clerc yn aros i'r contractwr wneud y Gwaith.
4.4	**Parcio Lon Ty Hen -** Mae'r Clerc yn aros i glywed pryd fydd y llinellau melyn wedi'u gwneud.
4.5	**Cynllun Bioamrywieth -** Mae'r Clerc yn aros am caniatad gan y Cyngor Sir
4.6	**Llochesi bysiau -** Cytunwyd i barhau â'r gwaith (glanhau a phaentio) yn yr hydref.
4.7	**Balchder yn eich cymuned** - Mae'r grant wedi'i awdurdodi gan Gyngor y Sir. Mae'r Clerc yn aros i'r contractwr gysylltu ag ef gyda dyddiad cychwyn.
4.8	**Llwybr Eglwys Llanbeulan -** Mae'r llwybr hwn wedi cael ei dorri (ar gam) gan y Cyngor Sir. Gellir ei dynnu oddi ar yr agenda nawr.
4.9	**Lon Newidfa** - Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir
4.10	**Costau Byw** - Bydd y Clerc yn trefnu digwyddiad yn fuan.
	Llofnod…….Cadeirydd 13.10.26

4.11	**Bwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan** - Cytunwyd y bydd y Cynghorydd I Roberts yn cynrychioli'r cyngor cymuned ar y Bwrdd. Bydd y Clerc yn hysbysu Ysgrifennydd y Bwrdd.
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Oherwydd anawsterau sain, ni allai'r Cadeirydd gyflwyno ei adroddiad misol.
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MôN**
	Cynllunio
6.1	HHP/2026/127 Cais llawn ar gyfer adeiladu dormer ochr yn 12 Stad Tyn Berllan, Bryngwran – dim sylwadau
	Priffyrdd
6.2	**Bus shelter Stryd Fawr** - Llythyr gan Gyngor y Sir yn hysbysu'r Clerc pa swyddogion y dylid cysylltu â nhw ynghylch symud y lloches fysiau.
6.3	**Bus shelter/Lay By Engedi** - Mae Cyngor y Sir yn gobeithio sicrhau cyllid yn y flwyddyn ariannol nesaf i wneud gwelliannau.
6.4	**Lon Newidfa -** Bydd Cyngor y Sir yn trefnu ymgynghoriad ynghylch y mater hwn.
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	**Eisteddfod Mon 2027** - Cytunwyd i ohirio'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf, pan fydd mwy o aelodau'n bresennol.
8	**MATERION ERAILL**
8.1	**Wicker tunnel** - Gellir tynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda.
9	**MATERION ARIANNOL**
9.1	Gwiriad cyllid chwarterol 01.01.26- 31.03.26 – Mae y Cynghorydd S Jones yn gweithio ar y gwiriad
9.2	Gwiriad cyllid chwarterol 01.04.26- 30.06.26 – Bydd Cyng C Thomas yn gwneud y gwiriad. Dydy'r Clerc ddim wedi gallu cael y dogfennau ati oherwydd anawsterau wrth sganio ac argraffu.
	Cytunwyd i dalu'r canlynol
9.2	Humphreys Waste (HWR 46739) £24.00 a (HWR46740) £48.00 (HWR45406) £60.00 (HWR45405) £24.00
9.3	Gerddi Gwych 22.07.26 £180.00 25.08.26 £180.00
9.4	G Owen (printer) £35.32
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 13.10.26